# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2018

Amser: 08.30 - 08.46

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ohirio dadl UKIP (a drefnwyd ar gyfer 4 Gorffennaf 2018) tan 19 Medi 2019.

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 11 Gorffennaf 2018 –**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 18 mewn perthynas â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

**Dydd Mercher 19 Medi 2018 –**

- <u>Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Gwaith Craffu ar ôl Deddfu ar Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)</u>
- <u>Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)</u>

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch yr Amserlen ar gyfer ystyried y Bil Awtistiaeth (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor o 12 Mehefin i gyfeirio'r Bil Awtistiaeth (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer ystyriaeth yng Nghyfnod 1, a chytunodd ar 7 Rhagfyr 2018 fel y dyddiad cau i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad Cyfnod 1 ac ar 22 Chwefror 2019 fel y dyddiad cau i'r Pwyllgor gwblhau ei drafodion Cyfnod 2.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyheoddus ynghylch cais am gyfarfod ychwanegol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn gofyn am gyfarfod ychwanegol ddydd Mawrth 17 Gorffennaf 2018 er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ymgymryd â'i holl fusnes sydd wedi'i drefnu cyn toriad yr haf.

## 6 Y Pwyllgor Busnes

### 6.1 Coladu canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y papur ymhen 2 wythnos.

## 7 Rheolau Sefydlog

### 7.1 Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y papur ymhen 2 wythnos.

### 7.2 Cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 18 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r adroddiad ar ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013. Cytunodd y Pwyllgor y dylid gosod yr adroddiad y diwrnod canlynol, ochr yn ochr â chynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, i'w ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher nesaf.